Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | Uwch Therapydd Galwedigaethol (Tîm Anabledd 0-25) |
| **Safle:** | Gweithio Ystwyth / Safle Swyddfa, VITCC, Tredegar |
| **Cyfarwyddiaeth:** | Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Rhif y Swydd:** | BG03427 |
| **Cyflog:** | Gradd 9 (£42,403 – £46,464) |
| **Oriau:** | 37 (llawnamser) |
| **Contract:** | Parhaol |

**Crynodeb Swydd**

Rydym yn chwilio am Uwch Therapydd Galwedigaethol ymroddedig, angerddol a brwdfrydig!

Ymunwch â'n tîm o weithwyr cymdeithasol, gweithwyr cymorth a chael effaith gadarnhaol ar fywydau plant, pobl ifanc, a'u teuluoedd, o fewn y tîm anabledd 0-25. Rydym wrth ein bodd yn cynnig contract parhaol, llawnamser ar gyfer UwchTherapydd Galwedigaethol profiadol.

Byddwch yn cael cyfle i weithio gyda phlant a phobl ifanc (0-25), gan eu cefnogi i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gydag amrywiaeth o bobl, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr cymorth, addysg, iechyd, tai, a sefydliadau preifat a gwirfoddol.

Byddwch yn defnyddio'ch sgiliau rhesymu clinigol i argymell offer ac addasiadau i leihau effaith anabledd ar sgiliau byw bob dydd ac i hybu cynhwysiant.

Agwedd hanfodol ar rôl y Uwch Therapydd Galwedigaethol yn y tîm yw gweithio'n ataliol i ddarparu cyngor a strategaethau i rieni a phlant o ran diogelwch o fewn amgylchedd y cartref a'r gymuned. Yn aml gall hyn gynnwys cefnogi teuluoedd sy'n agored i Deuluoedd yn Gyntaf.

Er ein bod yn chwilio am rywun sydd â sgiliau uwch, byddem yn croesawu ceisiadau gan ymarferwyr llai profiadol sy'n fodlon ac yn awyddus i ddatblygu.

Os ydych yn Therapydd Galwedigaethol llai profiadol, byddem yn cefnogi eich datblygiad. Byddwch yn cael mwy o brofiad o ddefnyddio ystod o ymyriadau yn enwedig gweithio ar addasu tai a defnyddio offer i gefnogi diogelwch, cyfforddusrwydd ac annibyniaeth.

Byddwch yn rhan ganolog o'r Tîm Anabledd (0-25), gyda lefel uchel o ymreolaeth. Byddwch yn derbyn goruchwyliaeth ffurfiol fisol gan y Rheolwr Tîm Anabledd (0-25), goruchwyliaeth anffurfiol yn ôl yr angen a sesiynau ymarfer myfyrio grŵp/tîm. Byddwch yn derbyn goruchwyliaeth glinigol gan uwch ymarferydd therapi galwedigaethol i ddatblygu eich sgiliau rhesymu clinigol. Byddwch hefyd yn mynychu grŵp cymorth therapi galwedigaethol SSD Gwent Gyfan bob deufis a fydd yn rhoi cyfleoedd ychwanegol i chi ddatblygu rhwydwaith cymorth therapi galwedigaethol.

**Ynglŷn â'r rôl**

Rydym yn dîm ymroddedig sydd wedi ymrwymo i gefnogi plant a phobl ifanc (0-25) ag anableddau, gan eu harwain tuag at ddyfodol mwy disglair. Mae ein hymagwedd yn canolbwyntio ar rymuso teuluoedd a gofalwyr, gan wella bywydau'r unigolion hyn trwy ofal a chymorth personol. Fel Uwch Therapydd Galwedigaethol gyda ni, byddwch wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn gyson a sbarduno canlyniadau cadarnhaol i unigolion.

Byddwch yn asesu ac yn cefnogi plant, pobl ifanc (0-25) a theuluoedd mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys eu cartref, ysgolion, a chymunedau. Bydd eich asesiad yn canolbwyntio ar ganlyniadau, gan argymell a gweithredu ymyriadau sydd leiaf rhwystrol i leihau effaith anabledd a hybu annibyniaeth.

Er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant, pobl ifanc a theuluoedd, byddwch yn ymgysylltu ag adrannau grantiau tai, iechyd, addysg a gwasanaethau anabledd ac offer eraill.

**Pam Ni?**

**Grymuso Trawsnewidiadau:** Rydym yn canolbwyntio ar asesu cyfannol a chynlluniau gofal wedi'u teilwra, gan sicrhau bod pob plentyn, person ifanc a theulu yn cael y sylw unigol y maent yn ei haeddu.

**Dull Cynhwysol:** Nid yw gwaith ein tîm yn golygu darparu cymorth hanfodol yn unig; rydym yn meithrin annibyniaeth! Trwy strategaeth sy'n canolbwyntio ar gryfderau a chanlyniadau, rydym yn grymuso unigolion ifanc i ddatblygu sgiliau bywyd hanfodol a byw bywydau boddhaus.

**Cymorth Pontio:** Rydym yn mynd y tu hwnt i'r cyffredin drwy gynorthwyo pobl ifanc hyd at 25 oed, gan eu harwain yn ddi-dor i fyd oedolion. Mae ein gweithwyr yn cydweithio'n agos â'r unigolion, rhieni, gofalwyr ac asiantaethau partner i hwyluso trosglwyddiad llyfn, gan ein gwneud yn arloeswyr mewn ymarfer gwaith cymdeithasol. Bydd y Uwch Therapydd Galwedigaethol yn cynorthwyo yn hyn o beth trwy weithio mewn partneriaeth â Therapyddion Galwedigaethol i Oedolion i sicrhau trosglwyddiad esmwyth yn 25 oed.

**Amgylchedd Amrywiol a Chefnogol:** Ymunwch â thîm sydd â set sgiliau amrywiol a chyfoeth o brofiad. Mae ein hawyrgylch croesawgar yn annog cydweithio, gan sicrhau eich bod yn ffynnu wrth gyfrannu eich doniau unigryw at ein cenhadaeth gyfunol.

**Dysgu Parhaus:** Rydym yn coleddu angerdd ac ymrwymiad. Mae ein tîm yn cofleidio aelodau newydd yn eiddgar, gan gynnig amgylchedd anogol lle mae eich ymroddiad i rymuso bywydau nid yn unig yn cael ei werthfawrogi ond hefyd yn cael ei ddathlu.

Ym Mlaenau Gwent, gallwch ddisgwyl amgylchedd cynnes a chynhwysol, lle mae eich twf a'ch datblygiad yn hollbwysig. Mae ein tîm angerddol ac arloesol yn dod â chyfoeth o brofiad i'r bwrdd, gan ddarparu cefnogaeth ac anogaeth heb ei ail. Ein haddewid i chi yw amgylchedd gwaith cynhwysol a chefnogol, lle gallwch chi ryddhau eich llawn botensial a bod yn chi eich hun. Rydym yn cynnig amrywiaeth o fuddion i chi, gan gynnwys:

- Gwerthusiadau perfformiad a sesiynau adborth gyda'ch goruchwyliwr i'ch cynorthwyo i addasu i'ch rôl newydd.
- Trefniadau gweithio hyblyg i sicrhau bod gweithwyr yn elwa o gael cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.
- Derbyn hyfforddiant parhaus a chyfleoedd datblygiad proffesiynol i wella eich sgiliau a'ch gwybodaeth ar gyfer twf personol a datblygiad gyrfa.
- Gweithio mewn amgylchedd cydweithredol a chynhwysol sy'n gwerthfawrogi eich cyfraniadau.
- Cynllun pensiwn llywodraeth leol rhagorol a gwyliau blynyddol hael.

**Ymunwch â Ni i Lunio'r Dyfodol**

Drwy ddod yn rhan o'n tîm, nid dim ond cael swydd rydych chi; rydych chi'n dod yn rym hanfodol wrth drawsnewid bywydau. Os ydych chi'n rhannu ein hangerdd dros rymuso'r genhedlaeth nesaf, rydym yn eich gwahodd i wneud cais a chychwyn ar y daith foddhaus hon gyda ni.

Os hoffech gael trafodaeth agored ac anffurfiol am y rôl, cysylltwch â:

Rachel Cuddihy - Rachel.Cuddihy@blaenau-gwent.gov.uk

Rydyn ni eisiau i chi fod yn rhan o'n llwyddiant - gwnewch gais nawr!

*Mae'r swydd hon yn gofyn am gofrestriad gyda HPCP o dan y categori Therapydd Galwedigaethol. Bydd angen i gofrestriad fod yn ei le cyn dechrau yn y rôl. Mae gwybodaeth am sut i gofrestru gyda HPCP ar gael ar y wefan ganlynol https://www.hcpc-uk.org*

**Cynhelir camau gwirio cyn cyflogi trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd gofyn i'r deiliad swydd gwblhau cais am Ddatgeliad o Gofnodion Troseddol.**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cau:** | **28/11/2024** |
| **Dyddiad Cyfweliad:** | **TBC** |